# Thrombectomi mecanyddol drwy'r croen ar gyfer thrombosis gwythïen-ddofn acíwt yn y goes

12 Mehefin 2019

Clot gwaed yn y goes yw thrombosis gwythïen-ddofn (DVT). Dim ond ers ychydig wythnosau y bydd DVT acíwt wedi bod yno (bydd DVT cronig wedi bod yno ers fwy nag ychydig wythnosau). Gall fod naill ai'n DVT ilioffemoral neu'n DVT distal. Mae DVT ilioffemoral yn digwydd mewn gwythïen yn agos at ran uchaf y goes. Mae DVT distal yn digwydd mewn gwythïen yn is i lawr y goes.

Gellir defnyddio'r driniaeth hon ar gyfer DVT ilioffemoral, ond dim ond pan fydd cleifion yn cael archwiliadau rheolaidd i weld pa mor dda mae'n gweithio neu a yw wedi achosi problemau, a hynny am nad oes digon o dystiolaeth ynglŷn â pha mor dda y mae'r driniaeth hon yn gweithio.

Gellir defnyddio'r driniaeth hon ar gyfer DVT distal hefyd, ond dim ond os yw'n rhan o astudiaeth ymchwil. Mae hyn am fod llai o dystiolaeth ynglŷn â pha mor dda y mae'n gweithio ar gyfer y math hwn o DVT.

Caiff DVT mewn coes ei drin fel arfer â chyffuriau gwrthgeulo, sy'n atal y gwaed rhag ceulo ymhellach, ond nad ydynt yn gwasgaru'r clot. Gellir ei wasgaru dryw ddefnyddio cyffuriau chwalu clot gwaed, ond gall y rhain achosi gwaedu difrifol. Yn y driniaeth hon, caiff y clot ei chwalu a'i sugno allan gan ddefnyddio dyfais fecanyddol. Aiff y ddyfais hon i mewn drwy diwb a fewnosodir yn y wythïen drwy'r croen. Nod hyn yw lleihau'r symptomau ac atal problemau hirdymor megis chwyddo yn y goes ac wlserau.

Gall gwefan y GIG fod yn lle da i gael gwybod mwy. Mae gan ganllawiau triniaethau ymyriadol NICE fwy o wybodaeth am driniaethau a sut rydym yn eu hasesu.



© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.

### *A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?*

Os cawsoch gynnig y driniaeth hon, dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol drafod yr hyn y mae'n ei olygu, egluro'r astudiaeth ymchwil, a dweud wrthych am y risgiau a'r manteision. Dylent drafod eich opsiynau gyda chi, a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Dylai hyn oll ddigwydd cyn y byddwch yn cytuno (rhoi cydsyniad) i gael y driniaeth ac i fod yn rhan o'r astudiaeth. Dylech hefyd gael gwybod sut i gael rhagor o wybodaeth am y driniaeth. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

### *Rhai cwestiynau i feddwl amdanynt*

- Beth yn union yw'r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl? Pa mor debygol ydw i o'u cael?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgîl-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio neu os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

ISBN 978-1-4731-3431-7



© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.